

Grŵp Llandrillo Menai

Polisi Ymgysylltiad a Phresenoldeb Myfyrwyr Addysg Uwch

Fersiwn: 001

Dyddiad Cymeradwyo: 26/06/2025

Dyddiad yr Adolygiad Nesaf: 26/06/2027

Polisi Ymgysylltiad a Phresenoldeb Myfyrwyr Addysg Uwch GLIM

1. Cyflwyniad a Phwrrpas

Er mwyn cydymffurfio a gwahanol ofynion adrodd statudol, gan gynnwys rhai Cyllid Myfyrwyr Cymru (Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr) a rheoleiddwyr cyllido'r llywodraeth, mae'n ddyletswydd gyfreithiol ar Grŵp Llandrillo Menai i gofnodi presenoldeb myfyrwyr AU a monitro eu hymgysylltiad.

Mae'r polisi hwn yn cyd-fynd yn agos â pholisïau ehangach GLIM gan gynnwys:

- Y Polisi AU ar Addasrwydd i Astudio
- Y Polisi Addysg Uwch ar Amgylchiadau Esgusodol
- Y Polisi ar Gadarnhau Canlyniadau Addysg Uwch ac Apelio yn eu Herbyn
- Y Polisi Addysg Uwch ar Asesu
- Y Polisi Ffioedd Dysgu ac Arholiadau

1.1. Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r disgwyliadau o ran ymgysylltiad a phresenoldeb myfyrwyr Addysg Uwch (AU) sy'n dilyn cyrsiau ariennir yn uniongyrchol (DF) yng Ngrŵp Llandrillo Menai (GLIM). Ei nod yw hyrwyddo llwyddiant myfyrwyr trwy gyfranogiad gweithredol mewn gweithgareddau dysgu ac ymgysylltiad parhaus â chefnogaeth academiaidd. Mae'r polisi'n cyd-fynd hefyd â chyfrifoldeb GLIM i sicrhau ansawdd profiadau dysgu myfyrwyr, gan ystyried ffioedd myfyrwyr, gwasanaethau cymorth, a gofynion rheoleiddio.

1.2 Mae gwybodaeth am bresenoldeb ac ymgysylltiad myfyrwyr yn hanfodol i ddarparu cefnogaeth academiaidd a llesiant i fyfyrwyr, a chyfrifoldeb staff sy'n ymwneud ag unrhyw brosesau'n ymwneud â monitro presenoldeb ac ymgysylltiad yw sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chasglu a bod y wybodaeth honno'n gywir ac yn gynhwysfawr.

1.3 Mae presenoldeb rheolaidd a chyfranogiad gweithredol yn hanfodol ar gyfer llwyddiant myfyrwyr; felly, bydd y polisi hwn yn pwysleisio'r ffactorau hyn ac yn cynnwys fframwaith strwythuredig i fonitro a chefnogi ymgysylltiad. Bydd y fframwaith hwn yn galluogi adnabod ac ymyrryd yn gynnar yn achos myfyrwyr sydd mewn perygl o fethu'n academiaidd neu adael cwrs.

1.4 Mae'r polisi hwn yn ei gwneud yn ofynnol bod prosesau priodol ac amserol yn cael ei gweithredu i nodi a mynd i'r afael â phryderon ynghylch presenoldeb neu ymgysylltiad myfyrwyr a achosir gan iechyd, problemau personol, neu heriau eraill. Bydd hyn yn galluogi Grŵp Llandrillo Menai i gynnig cymorth i fyfyrwyr i'w cefnogi i ffynnu'n academiaidd, yn gymdeithasol, ac yn emosiynol.

1.5 Mae'r polisi hwn hefyd yn cefnogi Grŵp Llandrillo Menai i gydymffurfio â dyletswyddau rheoleiddiol neu ddeddfwriaethol sy'n ymwneud â phresenoldeb ac ymgysylltiad myfyrwyr, gan sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddiol allanol, gan gynnwys y rhai a osodwyd gan Medr, neu'r rhai sy'n gyfrifol am ariannu a rheoleiddio'r sector addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru, gan gynnwys addysg uwch.

2. Rhychwant

2.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob myfyriwr sydd wedi cofrestru ar gyrsiau Addysg Uwch a Ariennir yn Uniongyrchol (DF) yng Ngrŵp Llandrillo Menai, gan gynnwys myfyrwyr llawn amser a rhan-amser. Mae'n cynnwys yr holl weithgareddau dysgu a drefnir, gan

gynnwys darlithoedd, seminarau, gweithdai, lleoliadau, tiwtorialau, ac ymgysylltiadau arall sy'n gysylltiedig â chysiau.

3.0 Rolau a Chyfrifoldebau

3.1 Cyfrifoldeb y Gwasanaethau i Ddysgwyr (gan gynnwys adran gyllid GLIM) yw:

- A. Darparu systemau sy'n galluogi Grŵp Llandrillo Menai i gyflawni ei ddyletswydd i gofnodi presenoldeb a/neu ymgysylltiad fel y nodir gan gomisiynwyr a rheoleiddwyr.
- B. Diffinio disgwyliadau Grŵp Llandrillo Menai ynghylch presenoldeb ac ymgysylltiad dysgwyr.
- C. Cyhoeddi gwybodaeth glir a hygyrch i fyfyrwyr ar weithdrefnau ar gyfer cofnodi a monitro presenoldeb ac ymgysylltiad, adrodd absenoldebau a chanlyniadau diffyg presenoldeb neu ymgysylltiad.
- D. Gweinyddu'r broses o gynnal gwrandawiaidau terfynol.

3.2 Cyfrifoldeb y meysydd academiaidd yw:

- A. Amserlennu gweithgareddau addysgu ac asesu sy'n ymwneud â phresenoldeb a darparu gwybodaeth glir yn Llawlyfr y Rhaglen (neu gyhoeddiad tebyg) ynghylch sut mae gweithgareddau penodol yn cael eu dosbarthu.
- B. Yn ystod y cyfnod cynefino a thrwy gydol y flwyddyn academiaidd, esbonio'n glir i'r myfyrwyr beth yw'r disgwyliadau ynghylch presenoldeb, prydlondeb ac ymgysylltiad â'r rhaglen.
- C. Cofnodi presenoldeb myfyrwyr yn eu dosbarthiadau gan ddefnyddio'r dulliau y cytunwyd arnynt gan Grŵp Llandrillo Menai
- D. Rhoi gwybod am ddiffyg presenoldeb neu ddiffyg ymgysylltu i adran gyllid GLIM, sy'n gyfrifol am hysbysu cyrff proffesiynol, statudol, a rheoleiddio lle bo angen yn unol â'r camau ymgysylltu yn y polisi.
- E. Mynd ati'n rhagweithiol i gymryd pob cam rhesymol i gael dysgwyr i ymroi'n rhagweithiol i bresenoldeb ac ymgysylltiad cadarnhaol cyn mynd drwy gamau uwchgyfeirio'r polisi.

3.3 Cyfrifoldeb y myfyrwyr yw:

- A. Ymgysylltu â phob agwedd ar eu cwrs, gan gynnwys astudio'n annibynnol, a chymryd rhan mewn asesiadau ac unrhyw waith grŵp.
- B. Rhoi gwybod ar unwaith i'w tiwtor neu arweinydd rhaglen os na allant fod yn bresennol oherwydd salwch neu resymau dilys eraill.
- C. Rheoli eu presenoldeb yn unol â'r polisi hwn, gan sicrhau presenoldeb yn y gweithgareddau sy'n ddisgwyliedig i gyflawni holl ofynion y cwrs a gwneud penderfyniadau doeth ynghylch mynychu gweithgareddau dewisol sy'n seiliedig ar anghenion unigol neu nodau dysgu.
- D. Cyfathrebu'n brydlon a hysbysu eu tiwtor a/neu faes academiaidd am unrhyw amgylchiadau personol (fel salwch) sy'n effeithio ar eu presenoldeb a/neu ymgysylltiad â'u rhaglen (gweler Polisi Amgylchiadau Esgusodol Grŵp Llandrillo Menai).
- E. Ymgysylltu'n weithredol â Grŵp Llandrillo Menai ynghylch diffyg ymgysylltiad neu ddiffyg presenoldeb a cheisio cymorth gan wasanaethau perthnasol os ydynt yn profi anawsterau personol neu academiaidd a allai effeithio ar eu hymgysylltiad.

4. Monitro Ymgysylltiad a Chofnodi Presenoldeb

4.1. Y meysydd academiaidd sy'n gyfrifol am fonitro ymgysylltiad myfyrwyr â'u hastudiaethau ac am gymryd camau priodol i ymdrin â myfyrwyr nad ydynt yn ymgysylltu'n briodol â'u hastudiaethau.

4.2 Mae GLIM wedi ymrwymo i gefnogi myfyrwyr i gynnal ymgysylltiad â'u hastudiaethau. Mae'r sefydliad yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau cymorth, gan gynnwys:

- **Cymorth bugeiliol:** Tiwtoriaid personol a swyddogion lles myfyrwyr.
- **Cymorth academiaidd:** Sgiliau astudio, gweithdai, a thiwtorialau un i un.
- **Cyngor Ariannol:** Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar gyllid myfyrwyr, gan gynnwys benthyciadau, bwrsariaethau a chronfeydd caledi.
- **Iechyd a Llesiant:** Mynediad at gymorth Lles GLIM, cwnsela, ymarferydd iechyd meddwl a chynlluniau llesiant.

4.3 Anogir myfyrwyr i geisio cymorth cyn gynted â phosibl os ydynt yn dod ar draws anawsterau sy'n effeithio ar eu hymgysylltiad neu'u presenoldeb. Mae Gwasanaethau i Ddysgwyr yn darparu cefnogaeth i feysydd academiaidd gynorthwyo myfyrwyr gyda'u hymgysylltiad â'u hastudiaethau trwy gynnig cyngor ac arweiniad arbenigol a dargedir, gan gynnwys yn y meysydd canlynol:

- Cefnogi myfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, niwroamrywiaeth ac anableddau
- Cyllid myfyrwyr, yn cynnwys cefnogaeth ariannol/cronfeydd caledi
- Iechyd a llesiant, yn cynnwys cymorth iechyd corfforol a meddyliol a gwasanaethau cwnsela'r coleg
- Cefnogi myfyrwyr â phrofiad o fod mewn gofal
- Myfyrwyr â chyfrifoldebau gofalu

4.4 Bydd meysydd academiaidd yn ymchwilio i unrhyw absenoldeb heb awdurdod a/neu bresenoldeb gwael gan fyfyrwr a byddant yn dilyn y tri cham isod os oes arwyddion nad yw'r myfyrwr yn ymgysylltu'n briodol. Gellir ceisio cyngor gan y gwasanaethau o ddysgwyr, a gellir cyfeirio myfyrwyr at y gwasanaeth cymorth perthnasol. Yn aml, gall ymyrraeth gynnar gan wasanaethau arbenigol atal myfyrwyr rhag cyrraedd pen draw prosesau ffurfiol yn gynamserol a gall atal amgylchiadau rhag gwaethygu. Bydd holl staff GLIM sy'n dilyn prosesau absenoldeb gyda myfyrwyr yn gwneud hynny'n gydymdeimladol, yn sensitif a chyda'r prif nod o gefnogi myfyrwyr i ailddechrau mynychu ac ymgysylltu'n rheolaidd.

4.5 Bydd natur gohebiaeth a chyfarfodydd GLIM gyda myfyrwyr yn gefnogol ac yn dryloyw er mwyn annog myfyrwyr i wella eu presenoldeb a'u hymgysylltiad.

4.6 Cynhelir unrhyw gyfarfodydd i adolygu presenoldeb/cynnydd mewn modd cefnogol. Bydd y cyfarfod yn archwilio'r rhesymau dros ddiffyg presenoldeb neu absenoldeb heb awdurdod gyda'r myfyriwr ac yn cymryd camau i gefnogi ei gynnydd academiaidd. Nid yw cyfarfodydd adolygu presenoldeb a chynnydd gyda myfyrwyr fel arfer yn rhai disgyblu eu natur; fodd bynnag, gallent ddod o dan Bolisi Ymddygiad Dysgwyr GLIM mewn rhai amgylchiadau, er ein bod yn anelu at osgoi hynny os oes modd. Dylid cofnodi'r ymyriadau a'r cyfarfodydd hyn ar eDRAC.

4.7 Bydd y meysydd academiaidd yn monitro ac yn adolygu'n rheolaidd ddangosyddion eraill o ymgysylltiad myfyrwyr, fel:

- Cyflwyno gwaith cwrs ac asesiadau.
- Cyfranogiad mewn amgylcheddau dysgu ar-lein, fel Moodle.
- Ymgysylltiad â thiwtorialau academiaidd a phersonol.
- Presenoldeb mewn gweithgareddau profiad gwaith, lle y bo'n berthnasol.

5. Ymyriadau mewn achosion o ddiffyg ymgysylltu

Ar ddechrau pob blwyddyn academiaidd bydd y weithdrefn ymgysylltu fel arfer yn dechrau ar wythnos 6 y semester cyntaf. Os bydd presenoldeb neu ymgysylltiad myfyriwr yn gostwng islaw'r lefelau derbyniol, gellir ymyrryd fel a ganlyn:

CAM 1

Mae Cam 1 yn cael ei gweithredu o ddechrau **Wythnos 6 y semester cyntaf** ac yn berthnasol yn yr amgylchiadau canlynol:

- Mae pryderon wedi cael eu codi ynghylch presenoldeb, ymgysylltiad academiaidd, neu les myfyriwr. Gall y pryderon hyn gael eu codi drwy amrywiol ddulliau, gan gynnwys:
 - Materion a nodwyd gan y maes academiaidd sy'n achosi diffyg cynnydd addysgol.
 - Data presenoldeb
- Mae'r myfyriwr wedi colli gweithgareddau cyswllt, fel darlithoedd, tiwtorialau ac ati.
- Mae presenoldeb y myfyriwr o dan 85%

Bydd eu Tiwtor Personol yn cysylltu â'r myfyrwyr sy'n cyrraedd Cam 1 i drefnu tiwtorial gorfodol. Bydd y tiwtorial yn gyfle i drafod unrhyw bryderon a rhwystrau er mwyn helpu myfyrwyr i wella eu presenoldeb ac ymdrin ag unrhyw broblemau sylfaenol. Cofnodir canlyniadau a chatau gweithredu adolygiad cam 1 ar broffil eDrac y dysgwyr.

CAM 2

Mae Cam 2 Yn berthnasol yn y sefyllfaoedd canlynol:

- Cwblhawyd Cam 1, ond mae presenoldeb a/neu ymgysylltiad gwael yn parhau.
- Mae presenoldeb presennol a gwirioneddol y myfyriwr wedi gostwng o dan 75%.
- Nid yw myfyriwr yn dilyn cam 1.

Bydd myfyrwyr ar gam 2 yn cael neges e-bost gychwynnol gan eu Tiwtor Personol a/neu

Arweinydd Rhaglen i gynnig cefnogaeth ac i gynnig trafod y rhesymau dros beidio ag ymgysylltu. Bydd y Tiwtor Personol yn datblygu cynllun gweithredu cefnogol ar system eDRAC sy'n amlinellu'r camau i'w dilyn i gefnogi'r myfyriwr i ail-ymgysylltu â'i astudiaethau.

Bydd y tîm academiaidd yn rhannu'r holl wybodaeth a chanlyniadau cam 2 â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau i Ddysgwyr a'r Cyfarwyddwr Addysg Uwch.

- Rhaid cofnodi holl gamau Cam 2 ar system eDRAC.

CAM 3

Mae Cam 3 yn berthnasol pan na chafwyd gwelliant boddhaol mewn presenoldeb a/neu ymgysylltiad yn dilyn Cam 2.

Fel arfer, gweithredir y cam hwn pan na fydd myfyriwr:

- Wedi ymateb i gamau 1 a 2
- Yn cyflwyno unrhyw waith ac/neu'n colli dyddiadau cyflwyno gwaith heb fod estyniadau neu addasiadau wedi'u cymeradwyo gan Banel Amgylchiadau Esgusodol GLIM.
- Mae lefelau presenoldeb wedi gostwng o dan 60%

Ar gam 3, gwahoddir y myfyriwr i **gyfarfod ffurfiol** a elwir gan Reolwr y Maes Rhaglen a/neu'r Arweinydd Rhaglen ac y bydd Swyddog AU GLIM yn bresennol ynddo. Nod y cyfarfod hwn yw:

1. Deall yn llawn y rhesymau dros y diffyg ymgysylltiad.
2. Datblygu cynllun gweithredu i gynorthwyo'r myfyriwr i ail-ymgysylltu'n llwyddiannus â'i astudiaethau.

Anogir myfyrwyr sy'n profi heriau personol, ariannol neu iechyd estynedig sy'n eu hatal rhag mynychu gwersi neu wneud cynnydd academiaidd boddhaol i ofyn am gael atal eu hastudiaethau. Gall y coleg ystyried Ataliad Tactegol pan nodir heriau o'r fath, a phan na cheir datrysiad. Mae hyn yn caniatáu:

- Seibiant dros dro mewn astudiaethau.
- Atal ffioedd.
- Rhyddhau rhag gofynion presenoldeb a chynnydd academiaidd yn ystod y cyfnod atal.

Ar ôl adolygu'r holl gamau, bydd y Cyfarwyddwr Addysg Uwch yn gwneud penderfyniad terfynol ynghylch Ataliad Tactegol.

CAM 4

Mae Cam 4 yn berthnasol pa fydd pob ymgais flaenorol i ymgysylltu â myfyriwr wedi methu. Fel arfer, cyrhaeddir y cam hwn:

- Pam na fydd myfyriwr yn cyflwyno gwaith neu mae'n colli dyddiadau pwysig ar gyfer cyflwyno gwaith heb fod estyniadau wedi'u cymeradwyo.
- Pam na fydd myfyriwr yn mynychu'r coleg.
- Pan na fydd myfyriwr wedi ymgysylltu â'r coleg yn ystod camau 1 i 3.

Ar y cam hwn, gall GLIM ystyried terfynu astudiaethau myfyriwr os yw'r cynnydd yn parhau i fod yn anfoddhaol neu fe all gyfeirio'r myfyriwr at bolisiâu GLIM priodol eraill.

- Bydd panel mewnol dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Addysg Uwch yn ystyried achosion cam 4. Bydd y Panel yn cynnwys:
 - Rheolwyr Academiaidd ac Arweinydd y Rhaglen, a fydd yn gyfrifol am

ymchwilio i'r rhesymau dros bresenoldeb gwael a diffyg ymgysylltiad y myfyriwr a chyflwyno'r rhain i'r panel.

- Y myfyriwr.
- Rheolwr y Gwasanaethau i Ddysgwyr.

Bydd y panel yn adolygu'r achos ac yn penderfynu ar y canlyniad.

Bydd Rheolwr y Gwasanaethau i Ddysgwyr yn gwahodd y myfyriwr i'r **panel a fydd yn cynnwys:**

1. y Cyfarwyddwr Addysg Uwch,
2. Rheolwr y Gwasanaethau i Ddysgwyr a
3. Rheolwr y Maes Rhaglen a'r Arweinydd Rhaglen

Mae gan y dysgwr yr hawl i'r gwrandawriad gael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Cynigir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i unigolion a threfnir hynny'n ôl yr angen.

Yn dilyn y gwrandawriad, bydd y panel yn cynnal trafodaeth fewnol i benderfynu ar un o'r canlyniadau canlynol:

- Rhybudd terfynol gyda chynllun gweithredu a chefnogaeth ychwanegol i alluogi'r myfyriwr i ddychwelyd i'w astudiaethau.
- Argymhellion ar gyfer atal a/neu derfynu astudiaethau yn cael eu cyflwyno i gadeirydd y Bwrdd Arholi i'w cymeradwyo'n derfynol.
- Os na fydd y myfyriwr yn dod i'r panel, bydd y cyfarfod yn parhau yn ei absenoldeb.

Gall myfyrwyr apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad a wneir gan y Bwrdd Asesu (gweler pwynt 7 y polisi hwn) neu drwy weithdrefnau apelio academiaidd y brifysgol bartner neu'r corff dyfarnu perthnasol.

Bydd holl ohebiaeth Cam 4 yn cael ei anfon yn y post drwy ddosbarthiad a gofnodwyd ac i gyfrif e-bost y myfyriwr yn GLIM. Gwneir cyswllt dilynol trwy neges destun neu dros y ffôn.

Bydd y Cyfarwyddwr Addysg Uwch yn darparu adroddiad i'r Tîm Cyllid, Monitro a Chydymffurfiaeth a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau i Ddysgwyr a fydd yn rhestru'r myfyrwyr sydd wedi derbyn hysbysiadau Cam 2, 3 a 4. Cyflwynir crynodeb o'r achosion hyn i gyfarfodydd y Grŵp Ansawdd a Safonau Addysg Uwch i'w goruchwyllo a'i hadolygu.

6. Gadael / Terfynu Astudiaethau:

6.1 Mewn achosion o adael/ atal neu derfynu astudiaethau, bydd Grŵp Llandrillo Menai yn adrodd ar statws y myfyriwr i Gyllid Myfyrwyr Cymru, ac i'r cyflogwr mewn achosion lle mae myfyrwyr yn derbyn nawdd. Mae hyn yn sicrhau bod cofnod academiaidd y myfyriwr yn cael ei ddiweddarau a bod modd gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol i gyllid myfyrwyr neu nawdd fisa.

7. Apeliadau a Chwynion

7.1 . Ar ôl naill ai Cam 3 neu Gam 4, lle gwnaed penderfyniad i atal neu derfynu cofnod y myfyriwr, mae gan y myfyriwr hawl i gyflwyno apêl i Uwch Gyfarwyddwr AU GLIM o fewn 10 diwrnod gwaith i gael gwybod am y penderfyniad.

7.2 Ar ôl derbyn apêl, bydd yr Uwch Gyfarwyddwr Addysg Uwch yn penderfynu naill ai:

- A. Wrthdroi'r penderfyniad a chaniatáu i'r myfyriwr barhau â'i astudiaethau yn GLIM, lle bo angen, gan fanylu ar yr amodau y mae'n rhaid i'r myfyriwr gydymffurfio â hwy.
- B. Cadarnhau'r penderfyniad i atal astudiaethau'r myfyriwr neu ddod â hwy i ben.

7.3 Gall myfyrwyr sy'n parhau'n anfodlon â chanlyniad eu hachos ar ôl dilyn yr holl weithdrefnau mewnol fod â'r hawl i gyflwyno apêl derfynol i'r Sefydliad Addysg Uwch perthnasol. Mae'r broses apelio hon yn rhoi cyfle ychwanegol i fyfyrwyr geisio adolygiad o'r penderfyniad, gan sicrhau tegwch a thryloywder.

Bydd y broses ar gyfer cyflwyno apêl, gan gynnwys meini prawf cymhwysra, y ddogfennaeth ofynnol, a'r dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno, yn cael ei dilyn yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad addysg uwch sy'n dyfarnu. Bydd myfyrwyr yn cael canllawiau clir ar sut i apelio, gan gynnwys manylion cyswllt perthnasol a gwybodaeth am y gefnogaeth sydd ar gael.

8. Goblygiadau ariannol peidio ag ymgysylltu a'r goblygiadau o ran nawdd

8.1 Gall myfyrwyr wynebu canlyniadau ariannol a gweinyddol sylweddol os nad ydynt yn ymgysylltu â'u cwrs.

8.2 Gall peidio ag ymgysylltu arwain at atal neu dynnu cyllid yn ôl gan Gyllid Myfyrwyr Cymru. Mae hyn yn cynnwys benthyciadau ffioedd dysgu, benthyciadau cynhaliaeth, a grantiau.

8.3 Gordaliadau: Gellir ystyried bod unrhyw gymorth ariannol sydd eisoes wedi'i ddosbarthu wedi'i ordalu, ac efallai y bydd gofyn i fyfyrwyr ad-dalu'r symiau hyn neu eu didynnu o daliadau yn y dyfodol.

8.4 Bwrsariaethau, grantiau neu ysgoloriaethau: Gall myfyrwyr sy'n derbyn bwrsariaethau, grantiau neu ysgoloriaethau allanol neu gan y sefydliad golli eu cymhwysra ar gyfer y gwobrau hyn oherwydd diffyg ymgysylltu.

8.5 Atebolrwydd ffioedd: Bydd myfyrwyr sy'n cael eu tynnu oddi ar gwrs oherwydd diffyg ymgysylltiad yn parhau i fod yn atebol am y ffioedd dysgu tan y byddant wedi gadael y cwrs o dan Bolisi Ffioedd Dysgu ac Arholiadau GLIM.

8.6 Er mwyn osgoi'r canlyniadau hyn, anogir myfyrwyr yn gryf i geisio cefnogaeth gan eu Tiwtor Personol, y tîm Gwasanaethau i Ddysgwyr, neu'r Swyddfa Gyllid os ydynt yn wynebau problemau gydag ymgysylltiad, presenoldeb, neu'n wynebu heriau eraill sy'n effeithio ar eu hastudiaethau.

9. Absenoldeb gyda Chaniatâd (Esgusodedig)

9.1 Gellir caniatáu i fyfyrwyr fod yn absennol am resymau dilys, yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Salwch (gyda nodyn meddyg os oes angen).
- Argyfyngau teuluol.
- Arferion crefyddol.
- Digwyddiadau swyddogol y coleg (e.e., gweithgareddau chwaraeon neu gynrychioli'r coleg mewn cyfarfodydd ac ati).

9.2 Gellir caniatáu i fyfyrwyr fod yn absennol os na allant fynychu dosbarthiadau oherwydd salwch, ar yr amod eu bod yn gallu cyflwyno dogfennau priodol, fel nodyn meddyg, os yw'r sefydliad yn gofyn am hynny. Fel arfer, mae angen dogfennau ar gyfer absenoldebau hir, absenoldebau cyson neu absenoldebau sy'n gofyn am addasiadau i astudiaethau.

9.3 Gellir ystyried bod cymryd rhan mewn digwyddiadau swyddogol yn y coleg, fel cystadlaethau chwaraeon, gweithgareddau cynrychioli, neu gynadleddau academiaidd, yn rheswm dilys dros absenoldeb gyda chaniatâd. Rhaid ceisio caniatâd gan y Tiwtor Personol / Arweinydd Rhaglen er mwyn i unrhyw absenoldeb gael ei ystyried yn awdurdodedig.

9.4 Dylai myfyrwyr gyflwyno eu ceisiadau ymlaen llaw pryd bynnag y bo modd neu cyn gynted ag y byddant yn dod i wybod bod angen bod yn absennol oherwydd argyfwng.

9.5 Gall methu â gofyn am absenoldeb neu roi gwybod amdano'n brydlon arwain at beidio ag awdurdodi'r absenoldeb, ac fe hyn allai effeithio ar gofnod presenoldeb y myfyriwr ac, yn ei dro, ar ei gynnydd academiaidd.

9.6 Os bydd myfyrwyr yn rhagweld y bydd angen iddynt fod yn absennol yn aml am unrhyw reswm, dylent drafod hyn yn agored â'u Harweinydd Rhaglen er mwyn gweld pa gefnogaeth neu addasiadau all fod ar gael.

Atodiad 1 – Diffiniad o'r termau

Ymgysylltu	• Cymryd rhan weithredol mewn sesiynau a drefnwyd (wyneb yn wyneb ac ar-lein). • Cyflwyno gwaith a chyflwyno gwaith academiaidd mewn pryd. • Yn ogystal â bod yn bresennol, rhyngweithio â thiwtoriaid ac ymgysylltu â gweithgareddau dysgu
Dulliau eraill o weld a yw dysgwyr yn Ymgysylltu	• cyfranogiad rhithwir, • cyflwyniadau aseiniadau, • rhyngweithio mewn tiwtorialau
Presenoldeb	Mae presenoldeb yn cyfeirio at bresenoldeb corfforol neu rithwir dysgwr mewn gweithgareddau dysgu a drefnwyd, fel sy'n ofynnol gan eu rhaglen astudio. Mae presenoldeb yn ddangosydd allweddol o ymgysylltiad a chynnydd academiaidd ac fe'i cofnodir yn ffurfiol trwy gofrestrau a systemau monitro. Mae presenoldeb yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i: • Bod yn bresennol yn gorfforol mewn darlithoedd, seminarau, gweithdai, sesiynau ymarferol a lleoliadau profiad gwaith a drefnwyd. • Cymryd rhan mewn sesiynau dysgu ar-lein a drefnwyd (darlithoedd byw, gweminarau, neu drafodaethau rhyngweithiol). • Mynychu tiwtorialau un i un, sesiynau cymorth academiaidd, neu gyfarfodydd goruchwyllo yn ôl yr angen. Bodloni gofynion presenoldeb sy'n benodol i'r cwrs (e.e., asesiadau ymarferol, gwaith labordy, neu leoliadau gwaith proffesiynol). Gall methu â chyrraedd y trothwyon presenoldeb gofynnol heb resymau dilys amau at gamau ymyrryd fel yr amlinellir yn y polisi. Fodd bynnag, nid presenoldeb yw'r unig ffordd o fesur ymgysylltiad, a bydd dysgwyr sy'n dangos cyfranogiad gweithredol trwy ddulliau eraill (e.e., astudio annibynnol, cyflwyno asesiadau'n brydlon, ac ymgysylltiad â thiworialau) hefyd yn cael eu hystyried o fewn fframwaith y polisi hwn.
Cyswllt cychwynnol	Bydd tiwtor yn cysylltu â'r myfyriwr i drafod y rhesymau dros ddiffyg presenoldeb ac/neu ymgysylltiad
Cyfarfod ffurfiol	Os nad oes gwelliant, gwahoddir y myfyriwr i gyfarfod ffurfiol i ddatblygu cynllun gweithredu.
Gwrandawriad Terfynol	Cyfarfod terfynol dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Addysg Uwch i benderfynu a all myfyriwr barhau â'i astudiaethau yn GLIM.
Atgyfeiriad at wasanaethau cymorth	Pan fo hynny'n briodol, gellir atgyfeirio'r myfyriwr at wasanaethau cymorth fel cwnsela, sgiliau astudio, neu gyngor ariannol.

Cynllun gweithredu cefnogol	Cynllun i gynorthwyo myfyrwyr i ail-ymgysylltu â'u hastudiaethau sy'n nodi'r heriau sy'n effeithio ar ymgysylltiad y myfyriwr ac yn darparu strategaethau ac adnoddau pwrpasol i fynd i'r afael â'r heriau hynny. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar feithrin llwyddiant academiaidd, llesiant ac atebolrwydd, gan annog cyfranogiad gweithredol yn y broses ddysgu.
Ataliad Tactegol	Mesur dros dro a ddefnyddir gan GLIM i oedi astudiaethau myfyriwr oherwydd pryderon ynghylch ei berfformiad, ei ymddygiad, neu ei allu i ymgysylltu'n effeithiol. Yn aml, gweithredir yr ataliad i fynd i'r afael â materion fel problemau iechyd meddwl, materion disgyblu, neu anawsterau academiaidd, gan roi amser i'r myfyriwr fynd i'r afael â'r pryderon hyn cyn ailddechrau ei astudiaethau. Fel arfer, mae'n rhan o strategaeth ehangach i gefnogi'r myfyriwr a sicrhau ei lwyddiant tra hefyd yn cynnal safonau'r sefydliad a lles y gymuned. Rhaid hysbysu Cyllid Myfyrwyr Cymru am Ataliadau Tactegol sy'n digwydd am nad yw myfyrwyr yn ymgysylltu. Yna bydd y myfyrwyr yn cael llythyr gan Cyllid Myfyrwyr Cymru i roi gwybod y bydd unrhyw gostau cynhaliaeth i'r myfyriwr yn dod i ben oherwydd diffyg ymgysylltiad. Os bydd y myfyriwr yn ail-ymgysylltu wedyn, gall y cymorth ariannol gan Cyllid Myfyrwyr Cymru ailddechrau.
Ataliad	Saib ffurfiol, dros dro yng nghofrestriad academiaidd myfyriwr, a ddechreuwyd gan y myfyriwr ac a gefnogwyd gan y coleg. Gall hyn ddigwydd oherwydd amgylchiadau personol, meddygol, ariannol, neu amgylchiadau arwyddocaol eraill sy'n atal y myfyriwr rhag parhau â'i astudiaethau ar am y tro. Yn ystod y cyfnod atal, nid yw'r myfyriwr yn cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau academiaidd ond fel arfer disgwylir iddo ddychwelyd i'w raglen ar ddyddiad diweddarach y cytunwyd arno. Mae Atal Astudiaethau yn golygu saib dros dro mewn astudiaethau, gyda'r bwriad o ddychwelyd i'r rhaglen yn ddiweddarach (fel arfer y flwyddyn academiaidd ganlynol).
Gadael Cwrs	Y broses ffurfiol lle mae myfyriwr yn rhoi'r gorau i'w astudiaethau cyn cwblhau ei raglen. Os yw'r myfyriwr yn parhau i beidio ag ymgysylltu â'i gwrs heb resymau dilys, fe all gael ei dynnu oddi ar ei gwrs.
Terfynu astudiaethau	Diwedd ffurfiol a pharhaol ar gofrestrriad myfyriwr ar ei raglen academiaidd. Mae'r penderfyniad hwn fel arfer yn deillio o fethiant academiaidd, torri rheoliadau'r brifysgol, diffyg cydymffurfio â gofynion fisa, neu adael gwirfoddol gan y myfyriwr. Gall y sefydliad neu'r myfyriwr ddechrau'r broses derfynu a dyna fydd diwedd perthynas y myfyriwr â'r sefydliad ar y rhaglen astudio honno.

Effaith ar gyllid myfyrwyr

Gall atal astudiaethau gael goblygiadau sylweddol i gyllid myfyriwr, gan gynnwys:

Taliadau Benthyciad Myfyrwyr:

- Benthyciad Ffioedd Dysgu: Gall taliadau i'r sefydliad ddod i ben yn ystod y cyfnod atal.
- Benthyciad Cynhالياeth: Gall taliadau barhau am hyd at 60 diwrnod ar ôl i'r ataliad ddechrau, yn dibynnu ar y rheswm dros yr ataliad (e.e. gall rhesymau meddygol ganiatáu taliadau hirach).
- Y Risg o Ordaliad: Os caiff benthyciadau neu grantiau eu gordalu yn ystod y cyfnod atal, efallai y bydd gofyn i fyfyrwyr ad-dalu'r symiau hyn neu eu didynnu o daliadau yn y dyfodol.
- Addasiadau Cymhwysra: Gall ataliad effeithio ar hyd cyffredinol cymhwysra myfyriwr i gael cyllid. Er enghraifft, gall cyfnod yr ataliad gyfrif tuag at gyfanswm nifer y blynyddoedd y gall myfyriwr dderbyn cyllid ar eu cyfer.
- Effaith ar Grantiau a Lwfansau: Gall cymorth fel y Lwfans i Fyfyrwyr Anabl barhau mewn rhai achosion, yn enwedig os yw'r ataliad yn gysylltiedig ag anabledd neu broblem iechyd.
- Ailasesu: Unwaith y bydd yr astudiaethau wedi ailddechrau, gall y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr neu'r corff ariannu perthnasol ailasesu cyllid y myfyriwr ar sail ei amgylchiadau newydd.

Mae'n hanfodol bod myfyrwyr hysbysu eu darparwr cyllid, fel y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, am eu hataliad ar unwaith ac yn ceisio arweiniad gan swyddfa gyllid neu swyddfa cymorth myfyrwyr eu coleg i reoli'r broses yn effeithiol.

Grŵp Llandrillo Menai

Higher Education Student Engagement and Attendance Policy

Version: 001

Date Approved: 26/06/2025

Next Review Date: 26/06/2027

GLIM Higher Education Student Engagement and Attendance Policy

1. Introduction & Purpose

Grŵp Llandrillo Menai has legal obligations to record both HE student attendance and monitor engagement to comply with various statutory reporting requirements, including those of Student Finance Wales (Student Loans Company) and the government's funding regulators.

This policy aligns closely with GLIM broader policies including;

- Higher Education Fitness to Study Policy
- Higher Education Extenuating Circumstances Policy
- Higher Education Confirmation and Appeals Policy
- Higher Education Assessment Policy
- Tuition and Exam Fee Policy

1.1. This policy outlines student engagement and attendance expectations in Higher Education (HE), directly-funded (DF) courses at Grŵp Llandrillo Menai (GLIM). It aims to promote student success through active participation in learning activities and continuous engagement with academic support. The policy also aligns with GLIM's responsibility to ensure the quality of the student learning experience, considering student fees, support services, and regulatory requirements.

